Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Hill Street
# 13 Hill Street
# Wrecsam
# LL11 1SN

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/04/2013**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Hill Street yn gylch meithrin cofrestredig sy'n rhan o ddarpariaeth Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae'n cyfarfod yn y boreau am bedair sesiwn yr wythnos yn ystod tymor yr hydref, a phum sesiwn yr wythnos yn ystod tymor y gwanwyn a thymor yr haf.

Lleolir y cylch mewn ystafell ar lawr uchaf adeilad sydd dan reolaeth pwyllgor y Ganolfan Ieuenctid yng nghanol tref Wrecsam. Mae'r Cylch yn gwasanaethu ardal sy'n gymysg o gartrefi breintiedig a difreintiedig. Caiff plant 3 oed eu hariannu gan yr Awdurdod Lleol yn y Cylch yn nhymor y gwanwyn a'r haf yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Mae'r plant sy'n cyrraedd yr oed priodol yn yr haf yn cael eu addysg gynnar yn yr ysgol.

Sefydlwyd y cylch meithrin bron i 40 mlynedd yn ôl er mwyn darparu addysg gynnar trwy gyfrwng y Gymraeg i blant ardal Wrecsam. Mae 31% o'r holl blant yn y cylch yn dod o gartrefi di Gymraeg. Yn ddieithriad, maent yn symud i addysg Gymraeg yn un o ysgolion cyfrwng Cymraeg Wrecsam

Yn ystod yr arolygiad, roedd 19 o blant ar y gofrestr yn cynnwys 15 plentyn o dan yr oed ariannu tair oed. Nid yw pob rhiant yn dewis anfon eu plentyn yn ddyddiol i'r cylch er bod y cyfle yna iddynt os y dymunant. Nid oes plentyn â datganiad yn nodi anghenion arbennig na phlentyn o gefndir lleiafrifol yn y cylch ar hyn o bryd ond ceir darpariaeth briodol ar eu cyfer, pryd bynnag y bo angen.

Arweinir y cylch gan arweinydd profiadol sydd wedi bod yn ei swydd ers chwarter canrif. Caiff ei chynorthwyo gan gymhorthydd profiadol ers 7 mlynedd ac aelod o'r pwyllgor fel 'dwylo ychwanegol' ar brydiau. Maent oll yn meddu ar Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (CGC) Lefel 3.

Arolygwyd y feithrinfa gan Estyn yn 2006. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r addysgu yn dda;
- mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau'r profiadau dysgu a ddarperir;
- caiff y plant ofal da mewn amgylchedd dysgu cynhwysol;
- mae'r awyrgylch yn gynnes a chroesawgar;
- mae'r ymarferwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol; ac
- mae perthynas dda iawn rhwng y plant a'r ymarferwyr.

**Rhagolygon gwella**

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella da oherwydd:

- ymrwymiad yr ymarferwyr i sicrhau'r addysg orau i bob plentyn;
- arweiniad effeithiol;
- gwaith tîm da; ac
- ymrwymiad y staff i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

## Argymhellion

A1 Gwella darpariaeth i ymestyn medrau'r plant ymhellach, yn arbennig eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

A2 Defnyddio'r arsylwadau a wneir ar ddatblygiad y plant i wella eu medrau

A3 Datblygu gwybodaeth yr ymarferwyr a'r pwyllgor rheoli am brosesau a medrau hunanarfarnu a chynllunio strategol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Barn |
|---|---|

**Safonau: Barn**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau diddorol a pherthnasol sy'n ennyn diddordeb y plant ar draws y chwe maes dysgu. Darperir profiadau rheolaidd iddynt arbrofi â phrofiadau newydd ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'u harwain gan oedolion. Mae'r cynllunio wedi ei seilio yn addas ar y Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru.

Rhoddir sylw priodol i hybu medrau dysgu'r plant yn enwedig medrau llafar, darllen ac ysgrifennu cynnar. Serch hynny, nid oes cyfleoedd digonol i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant yn ychwanegol i'r defnydd dyddiol o raglenni cyfrifiadurol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn un o gryfderau'r cylch. Darperir anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio medrau Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae trwy ystod o weithgareddau addas o dan arweiniad ymarferwyr sy'n gosod esiampl ieithyddol gadarn.

Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau diddorol sydd yn rhoi cyfleoedd da i'r plant. Cânt flas o ddathliadau Cymraeg a Chymreig yn ogystal â phrofiadau am ddiwylliannau eraill. Mae'r profiadau hyn yn cyfrannu at ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth diwylliannol ac o'u rôl fel dinasyddion byd-eang.

Mae pwyslais cyson ar annog plant i ailgylchu a gofalu am eu hamgylchedd.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu'n gyson dda. Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sicr am ddatblygiad plant ac maent yn ymwybodol o ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol weithgareddau torfol a grwpiau bach. Defnyddiant ganmoliaeth ac anogaeth yn gyson. Yn ystod gweithgareddau, mae'r ymarferwyr yn arsylwi'n dda ac yn ymyrryd yn bwrpasol er mwyn sicrhau bod y plant yn derbyn y cymorth angenrheidiol.

Mae'r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd dysgu trwy chwarae ac yn darparu cyfleoedd addas i'r plant ymarfer eu medrau. Mae'r ddarpariaeth barhaus yn ysgogol ac yn

denu'r plant i ddysgu medrau newydd. Caiff y plant eu cefnogi'n yn sensitif heb fod yn ymwthiol yn ystod y gweithgareddau hyn. Mae'r plant hefyd yn gwneud defnydd pwrpasol o adnoddau ac offer i gefnogi'r dysgu. Llwydda ymarferwyr i greu amgylchedd dysgu hapus a chynhaliol i'r holl blant.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn asesu a chofnodi eu cynnydd yn gyson. Gwna'r ymarferwyr arsylwadau perthnasol am gynnydd ac ymateb y plant a'u cadw mewn ffeil cynnydd unigol. Yn ogystal, maent yn casglu enghreifftiau o waith pob plentyn mewn llyfryn defnyddiol sy'n cael ei rannu gyda rhieni'r plentyn. Mae'r system yn newydd a heb wreiddio'n llawn yn yr ymarfer eto er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau yn y medrau ar draws y cwricwlwm.

Cwblheir ffurflenni trosglwyddo gwybodaeth i'r ysgolion cynradd sy'n hwyluso'r symud o un sefydliad i'r llall.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar a threfnus iawn. Mae polisïau a threfniadau i gefnogi iechyd a lles plant yn weithredol. Mae'r trefniadau sefydlu, ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni/gofalwyr, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n dda. Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn gysurus yng nghwmni'r oedolion. Mae'r oedolion a phlant yn dangos parch y naill at y llall. Gosodir disgwyliadau clir sy'n hyrwyddo ymddygiad da.

Caiff anghenion y plant eu hadnabod yn gynnar a threfnir darpariaeth bwrpasol ac effeithiol ar eu cyfer, gan gynnwys gwasanaethau gwybodaeth ac arweiniad arbenigol. Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu sydd yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder

Mae profiadau dysgu addas yn hyrwyddo datblygiad personol plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Anogir plant i ryngweithio gyda'i gilydd ac i fanteisio'n llawn ar y profiadau dysgu a ddarperir ar eu cyfer.

Nid oes disgybl ac anghenion dysgu ychwanegol yn y cylch ar hyn o bryd ond mae'r systemau a'r gweithdrefnau'n briodol i gwrdd ag anghenion unrhyw ddisgybl pan fo angen gan gynnwys lifft i hwyluso mynediad.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl ddarpariaeth a ddarperir. Llwyddir i greu awyrgylch teuluol lle mae'r plant yn datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Nid oes gwahaniaeth rhwng bechgyn a merched ac mae'r gweithgareddau yn addas i bawb.

Ceir cyflenwad digonol o adnoddau o ansawdd da yn yr ystafell ddosbarth gan gynnwys adnoddau chwarae mawr a ddefnyddir yn wythnosol gan nad oes lle chwarae allanol ar gael. Fodd bynnag nid oes digon o adnoddau pwrpasol ar gael i gefnogi medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae'r ystafell o faint digonol sy'n cynnig ethos ac amgylchedd dysgu braf i'r plant. Mae cegin a storfa addas yn arwain o'r ystafell. Nid oes man chwarae yn yr awyr agored ar gyfer y cylch. Serch hynny, gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y plant yn cael cyfle i symud o gwmpas, datblygu eu medrau corfforol a magu ymwybyddiaeth o'r byd a'u cwmpas. Gwneir defnydd rheolaidd o'r parc chwarae cyfagos pan fo'r tywydd a'r gefnogaeth un i un yn caniatàu.

Mae'r ardd fach a grëwyd mewn gofod cyfyng iawn ar lawr isaf yr adeilad yn gymorth i hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o blannu a thyfu blodau a llysiau.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff y lleoliad ei arwain mewn ffordd bwrpasol ac effeithiol gan y prif ymarferydd.

Mae strwythur clir i'r sesiynau gyda rôl amlwg i bob aelod o staff. Mae polisïau addas, megis amddiffyn plant a sicrhau cyfle cyfartal, yn weithredol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn rhannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu a datblygiad plant.

Mae'r pwyllgor rheoli, sy'n cynnwys pob rhiant, yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn gydwybodol wrth godi arian. Mae'r aelodau yn gefnogol iawn ac wedi sefydlu perthynas dda gyda'r ymarferwyr. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd a dechreuwyd cadw cofnodion o'r trafodaethau sy'n sail i gynllunio pellach. Maent yn dechrau cynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol er mai ar lafar yr amlygir hyn ac nid mewn dogfennaeth.

Mae'r ymarferwyr yn ymateb yn briodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol perthnasol, er enghraifft, y Fframwaith ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru, bwyta'n iach a dinasyddiaeth fyd eang.

Maent yn mynychu cyrsiau addas mewn agweddau ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a datblygiad a gofal plant. Defnyddiant yr hyfforddiant a geir yn effeithiol yn eu gwaith. Mae'r gweithdrefnau i arfarnu eu gwaith ac adnabod eu datblygiad proffesiynol pellach yn datblygu'n briodol ac yn cael dylanwad da ar y ddarpariaeth.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sicr am gryfderau'r lleoliad a'r agweddau sydd angen gwelliant. Trafodant yn gyson, gan ystyried diddordeb plant, a pheth barn rhieni a gofalwyr a phartneriaid eraill.

Er bod y prosesau hunanarfarnu yn fwy anffurfiol eu natur, maent wedi arwain at welliannau mewn agweddau ar y ddarpariaeth barhaus. Er enghraifft, mae ymarferwyr wedi creu llyfrynnau o waith plant i'w rhannu gyda'r rhieni. O ganlyniad, mae'r rhieni yn fwy ymwybodol o ddatblygiad eu plant ar draws chwe maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen ac o gamau posibl ar gyfer datblygiad pellach.

Gyda chymorth athrawes gyswllt yr awdurdod lleol, mae'r ymarferwyr wedi cwblhau arfarniad mwy ffurfiol o ansawdd y ddarpariaeth.  Serch hynny, nid oes sylw digonol i arfarnu cyflawniad plant.

Mae'r cynllun gwella sydd wedi deillio o hyn yn cynnwys meysydd addas ar y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad.  Mae angen cysylltu gwariant yn eglur i'r cynllunio.

Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio.  Gwnânt ddefnydd priodol o'r cyfleoedd a ddarperir i gydweithio a rhannu profiadau gyda lleoliad arall yn yr ardal.  Mae nifer o gylchoedd tebyg wedi ymweld â'r cylch i rannu'r arfer dda a welir yma.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r berthynas gyda phlant a rhieni yn gadarnhaol iawn ac yn cyfrannu'n sylweddol at greu ymdeimlad o gymuned ddysgu hapus ac effeithiol.

Mae ystod o bartneriaethau yn cyfrannu'n effeithiol at gyflawniadau a lles plant.  Mae perthynas dda gyda'r rhieni/gofalwyr.  Caiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu'n gyson am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol ar ddechrau a diwedd sesiynau.  Derbyniant adroddiad ysgrifenedig addas ar gynnydd eu plant yn y chwe maes dysgu ar ddiwedd cyfnod eu plentyn yn y Cylch.

Mae cysylltiadau cryfach gydag un ysgol gynradd leol yn fwy na'r llall.  Mae athrawon yn ymweld â'r cylch cyn y trosglwyddo ac mae hyn yn sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n gyflym a hapus.  Mae'r cysylltiadau â'r ysgol arall yn fwy anffurfiol ac yn datblygu'n briodol i sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n dda.

Mae'r berthynas waith adeiladol gydag athrawes gyswllt yr awdurdod addysg yn hyrwyddo datblygiad y lleoliad ymhellach.

Defnyddir cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu'r plant trwy ymweliadau megis â'r frigâd dân a'r swyddfa bost.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol a gwneir defnydd effeithiol o brofiad yr ymarferwyr.  Maent yn meddu ar iaith Gymraeg lafar gyfoethog ac mae ganddynt ystod o hwiangerddi a cherddi addas i gefnogi pob agwedd ar y cwricwlwm.  Mae rhieni hefyd yn ganmoliaethus iawn o'r staff.

Mae'r staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol yn ystod y sesiynau.  Gwneir defnydd da o ddoniau pob un.  Mae hyn yn amlwg yn yr awyrgylch gofalgar ac ysgogol yn y cylch a'r gefnogaeth ystyrlon a roddir i bob plentyn yn y ddarpariaeth barhaus a'r grwpiau ffocws.

Rheolir yr holl adnoddau'n dda.  Mae gan y trysorydd a'r prif ymarferydd ddealltwriaeth glir o'r gyllideb ac maent yn ymateb i anghenion fel bo angen er nad yw hyn wedi ei amlygu yn y cynllun gwella.

Mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer fach o ymatebion a ddaeth i law (llai na 10).

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Owenna Davies | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i’r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy’n anelu at roi’r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau’r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |